Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Rheolaethau pysgota newydd ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy: cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r is-ddeddfau pysgota newydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur 29.18** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Dave Mee |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gan nodi'r angen am ddull dalgylch integredig yn afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, a'r angen am gysondeb gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y dalgylchoedd hyn a rennir:<br><br>1. Rhoi sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfau a hysbysebwyd yn flaenorol<br>2. Ystyried y cynigion terfynol ar gyfer is-ddeddfau pysgota newydd a chytuno arnynt<br>3. Cymeradwyo cais i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr yn Afon Dyfrdwy (deng mlynedd o hyd gydag adolygiad llawn ar ôl pum mlynedd) ac Afon Gwy (tair blynedd o hyd) |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar yr <u>hirdymor</u>:** diogelu stociau o eogiaid a brithyllod y môr rhag dirywio ymhellach a hyrwyddo'r gwaith o'u hadfer tuag at statws cynaliadwy.<br>**Cymryd ymagwedd <u>integredig</u>:** dim ond rhan o'r stori yw dulliau rheoli pysgota – byddwn yn parhau i weithio er mwyn hyrwyddo'r gwaith o adfer ansawdd cynefinoedd afonydd.<br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** mae pysgota yn ddiddordeb poblogaidd i nifer fawr o bobl, gan gynnwys yr |

| | |
|---|---|
| | henoed a phobl anabl.<br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:** mae gennym bartneriaid galluog yn yr ymddiriedolaethau afonydd ac mae angen i ni gynnal perthynas gynhyrchiol â nhw.<br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:** mae'n rhaid i ni weithredu er mwyn diogelu ein stociau pysgod, gan roi cychwyn ar y gwaith o adfer stociau wrth i fentrau Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid adfer ansawdd afonydd. |

## 1. Mater

Mae eogiaid a brithyllod y môr yn rhywogaethau eiconig yng Nghymru, ac eto mae stociau mewn nifer o afonydd wedi dirywio'n sylweddol dros y degawdau diwethaf ac fe'u hystyrir ar hyn o bryd yn anghynaliadwy. Nid ydym felly yn sicrhau'r manteision posibl i Gymru a fyddai'n dod yn sgil poblogaethau pysgod iach a'r pysgodfeydd y gallant eu cefnogi.

Mae statws gwael hefyd yn cyfrannu at fethiannau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o sicrhau rheoliadau pysgota newydd ledled Cymru: -

(i) Cadarnhawyd Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi newydd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr 2018 am gyfnod o ddeng mlynedd
(ii) Gwnaed cais ar 20 Chwefror, yn dilyn cymeradwyaeth gan y bwrdd ym mis Ionawr, am is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd mewn afonydd y mae pob rhan ohonynt yng Nghymru
(iii) Mae cymeradwyaeth bellach wedi'i cheisio am gais i Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn cadarnhau'r is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy
(iv) Byddwn yn lansio ymgynghoriad statudol newydd maes o law ar gyfer is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd yn y rhannau o Afon Hafren (afon drawsffiniol) sydd yng Nghymru

Mae'r papur hwn, felly, yn amlinellu'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael ag un enghraifft o bwysau, effeithiau pysgota ar stociau anghynaliadwy yn afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, wrth gydnabod bod angen gwaith parhaus ar bwysau eraill.

## 2. Cefndir

Ein hamcan cyffredinol ar gyfer stociau mudol eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yw: -

***“Diogelu cynaliadwyedd ein cyflenwad naturiol o stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru drwy gymhwyso'r arferion gorau o ran gwyddoniaeth a rheolaeth."***

Wrth fynd i'r afael â'r amcan hwn, rydym yn ystyried egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y’u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ar y cyd â'n dyletswyddau statudol a chanllawiau cysylltiedig gan y llywodraeth. Rydym hefyd yn cadw mewn cof ymrwymiadau rhyngwladol y Deyrnas Unedig i NASCO (North Atlantic Salmon Conservation Organisation).

Wrth fodloni'r amcanion hyn, byddwn yn sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy.

Mae statws ein stociau eogiaid a rhywfaint o’n stociau brithyllod y môr wedi achosi pryder difrifol a chynyddol. Mae'r bwrdd eisoes wedi cytuno i ystyried a datblygu dulliau rheoli pysgota pellach er mwyn ymateb i hyn, a wnaeth arwain ym mis Mehefin 2017 at gymeradwyaeth y bwrdd i lansio ymgynghoriadau statudol ynghylch cynigion ar gyfer dulliau rheoli newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd.

Mae is-ddeddfau'n rhoi'r mecanwaith er mwyn rheoli gweithgarwch pysgota â gwialen a rhwyd, gan gynnwys y modd ar gyfer gorfodi pysgota dal a rhyddhau statudol, tra bo adnewyddu Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi yn gosod y modd statudol er mwyn cyfyngu ar y nifer o drwyddedau pysgota â rhwyd y gellir eu rhoi bob blwyddyn ar gyfer pysgota yn y pysgodfeydd â rhwyd cyhoeddus mewn aberoedd o gwmpas llawer o arfordir Cymru.

Mae dulliau newydd o reoli pysgota yn hanfodol ochr yn ochr â blaenoriaethau, mentrau a chamau gweithredu parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda phartneriaid, er mwyn mynd i'r afael â ffactorau eraill yn amgylchedd dŵr croyw a'r môr sy’n cyfrannu at ddirywiad stociau, megis dirywiad o ran cynefinoedd, achosion o ansawdd dŵr gwael, ac ysglyfaethu.

<u>Gweithredoedd hyd yma</u>
Gwnaethom gais i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi newydd, a sicrhawyd hyn ym mis Ionawr 2018.

Yn dilyn cymeradwyaeth y bwrdd ym mis Ionawr, gwnaethom gyflwyno ein cais er mwyn cadarnhau'r is-ddeddfau 'Cymru gyfan' newydd (a oedd yn eithrio afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy, Afon Gwy ac Afon Hafren) ar 20 Chwefror.

Gofynnir i'r bwrdd nodi i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno datganiad i'r wasg ar 23 Ebrill ac, ar yr un pryd, briff i Aelodau’r Cynulliad, Aelodau Seneddol Cymru, grwpiau pysgodfeydd lleol a rhwydwyr, lle nodwyd y canlynol: -

"Ar hyn o bryd, mae'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad yn ansicr, felly rydym yn cynnig na ddylid cyflwyno unrhyw fesurau newydd tan ddechrau tymhorau pysgota â gwialen a physgota â rhwyd 2019. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i egluro'r sefyllfa i enweirwyr, pysgotwyr â rhwydi, perchnogion pysgodfeydd, a chlybiau a chymdeithasau pysgota."

Camau i'w cymryd nawr

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r trydydd a'r pedwerydd cam yn y broses o ddiwygio dulliau rheoli pysgota, trwy geisio cymeradwyaeth y bwrdd i gyflwyno cais i Ysgrifennydd y Cabinet i gadarnhau'r is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy. Bydd y pedwerydd cam, sef y cam olaf, yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad statudol ar fesurau ar gyfer is-ddeddfau'r afonydd trawsffiniol (y rhannau o Afon Hafren sydd yng Nghymru), a lansiwyd ar 20 Mehefin am gyfnod ymgynghori o 12 wythnos.

2.1 Cynigion ar gyfer dulliau rheoli pysgota

Mae dulliau rheoli pysgota mewn afonydd trawsffiniol yn fwy cymhleth nag eraill am fod angen i awdurdodaeth arall eu hystyried.

Fodd bynnag, cytunwyd eisoes gydag Asiantaeth yr Amgylchedd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru arwain ar faterion pysgodfeydd mudol mewn dalgylchoedd Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, tra bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain ar gyfer Afon Hafren.

Rydym wedi dadansoddi perfformiad stoc a thueddiadau ac wedi ystyried opsiynau i fodloni ein hamcanion ar gyfer stociau eogiaid a brithyllod y môr. Mae gwybodaeth gefndirol bellach, gan gynnwys statws stociau, wedi'i chrynhoi yn Atodiad 1.

Drwy gydol y broses hon, gwnaethom gydweithio'n helaeth â rhanddeiliaid pysgota a Llywodraeth Cymru a, lle y bo'n briodol, Asiantaeth yr Amgylchedd. Gwnaethom gasglu achos technegol cynhwysfawr, lle aseswyd opsiynau, a nodwyd cynnig terfynol ar gyfer is-ddeddfau newydd (Atodiad 2).

Er mwyn sicrhau dull dalgylch integredig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgynghori'n annibynnol ar fesurau is-ddeddfau unfath ar gyfer Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy (gydag ymgynghoriad wedi'i drefnu yn y dyfodol ar gyfer Afon Hafren). Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysebu a chwblhau ei ymgynghoriad ar is-ddeddfau ar gyfer rhannau o Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy dan awdurdodaeth Cymru rhwng 13 Tachwedd 2017 a 5 Chwefror 2018, a chwblhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymgynghoriad cydredol gyda chynigion unfath ar gyfer ei awdurdodaeth ef.

Mae'r cynigion ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy yn unol ag is-ddeddfau arfaethedig 'Cymru gyfan'. Mae'r cynnig ar gyfer pecyn o fesurau deng mlynedd o hyd ar Afon Dyfrdwy, gydag adolygiad yng nghanol y tymor, ac ar gyfer pecyn byrrach o dair blynedd ar Afon Gwy, a fyddai'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021 ac a fyddai'n gydamserol â'r is-ddeddfau dal a rhyddhau sydd eisoes yn bodoli ar Afon Gwy.

Gofynnir i'r bwrdd nodi na fyddai cais yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr is-ddeddfau trawsffiniol arfaethedig ar Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy cyn i'r is-ddeddfau 'Cymru gyfan' gael eu cadarnhau. Mae hyn oherwydd y byddai'r ddwy set o is-ddeddfau trawsffiniol yn ddibynnol ar ddiwygiadau a wneir o fewn cynigion 'is-ddeddfau Cymru gyfan' i is-ddeddfau pysgota cynharach a chadarnhaol Cymru a gyflwynwyd yn 1995.

## 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Gwnaeth y bwrdd gymeradwyo lansio proses ymgynghori ffurfiol 12 wythnos o hyd ac fe'i hysbysebwyd, fe'i hyrwyddwyd ar ein gwefan ac fe'i cyflwynwyd i randdeiliaid pysgodfeydd lleol ac i'n grwpiau pysgodfeydd lleol ar Afon Gwy ac Afon Dyfrdwy ac Afon Clwyd. Ymgymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r brif rôl wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru 35 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda'r rhan fwyaf ohonynt gan enweirwyr a pherchnogion pysgodfeydd a chymdeithasau pysgota, ond hefyd gan gyrff anllywodraethol. Roedd 12 o'r rhain yn atebwyr a oedd wedi cynnig y dylai eu sylwadau cynharach i'r ymgynghoriad is-ddeddfau 'Cymru gyfan' hefyd eu hystyried fel ymatebion i ymgynghoriad trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy.

Yn Lloegr, gwnaeth tîm gweithredol Asiantaeth yr Amgylchedd gymeradwyo lansio ei ymgynghoriad statudol ei hun, a gweithredwyd hyn am gyfnod o bedair wythnos. Gwnaethant dderbyn 13 o sylwadau.

Cyflwynir dadansoddiad o sylwadau a wnaed yng Nghymru yn Atodiad 3, a chaiff adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad ei baratoi er mwyn mynd ochr yn ochr â chais ar gyfer cadarnhau is-ddeddfau newydd yn y dyfodol. Caiff dull tebyg ei ddilyn yn Lloegr gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### 3.1 Dewisiadau eraill a awgrymwyd mewn ymatebion yn yr ymgynghoriad

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd dderbyn awgrymiadau am amrywio'r mesurau rheoli arfaethedig, ymhlith sylwadau ar faterion penodol sy'n achosi

pwysau ar stociau. Caiff y rhain eu crynhoi yn Atodiad 4, ac rydym wedi eu hystyried yn ofalus iawn.

Ymatebion i'r sylwadau

Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r holl sylwadau yng Nghymru, a gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd hynny i'r holl sylwadau a wnaed yn Lloegr. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 3, ac argymhellion a wnaed ar gyfer cynigion eraill yn Atodiad 4.

## 4. Diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfau

Ar ôl craffu ar yr ymatebion ac ystyried y newidiadau a wnaed i'r is-ddeddfau Cymru gyfan, rydym wedi diwygio'r cynigion gwreiddiol. Cytunwyd ar y rhain gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chânt eu crynhoi yn Atodiad 5.

## 5. Mynd i'r afael â phwysau

Mae themâu a phwysau sy'n debyg i'r rhai a godwyd yn yr ymgynghoriad 'Cymru gyfan' wedi'u hamlygu yn y sylwadau a dderbyniwyd, sef: -

(i) Gorfodi (adnoddau, pysgota anghyfreithlon a gorfodi rheoliadau newydd)
(ii) Ysglyfaethu (adar sy'n bwyta pysgod)
(iii) Llygredd amaethyddol
(iv) Deorfeydd a stocio
(v) Cynlluniau adfer afonydd
(vi) Tystiolaeth a data

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati'n weithredol, neu wedi mynd ati'n weithredol, i roi sylw i bob un o'r pwysau sy'n effeithio ar stociau pysgod: -

(i) Gorfodi

Bydd pedwar swyddog Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 â gwarant yn weithredol yn Cyfoeth Naturiol Cymru maes o law, gyda dau swyddog yn y de a dau ohonynt yn ngogledd Cymru (noder na fyddant yn treulio 100% o'u hamser ar faterion yn ymwneud â physgodfeydd).

Gwnaethom gynnal diwrnod hyfforddiant Cymru gyfan ar gyfer staff gorfodi'r holl bysgodfeydd ym mis Mawrth, a gynlluniwyd yn rhannol i wella cydweithio ar draws timau a sicrhau dull cyson i'r ffordd rydym yn cyflawni gwaith gorfodi mewn pysgodfeydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio gweithio gyda Heddlu Dyfed–Powys, sy'n sefydlu Tîm Troseddu Cefn Gwlad. Rydym yn gobeithio y bydd meysydd o ddiddordeb cilyddol yn dilyn perthynas waith gadarnhaol gyda Heddlu Gogledd Cymru. Yn y de-ddwyrain, bydd swyddog heddlu ar secondiad (wedi'i ariannu 50% gan Cyfoeth Naturiol Cymru) yn dechrau gweithio gyda ni maes o law, gan ddarparu rhai adnoddau pysgodfeydd ychwanegol.

(ii) Ysglyfaethu (adar sy'n bwyta pysgod)

Yn dilyn trafodaethau â phartïon â diddordeb, rydym wedi sefydlu gweithgor mewnol a grŵp cynghori allanol, gyda'r ail yn cynnwys pysgodfeydd allweddol a chyrff anllywodraethol adar. Bydd y grŵp cynghori allanol yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 3 Gorffennaf o dan gadeiriaeth aelod o'r bwrdd Madeleine Havard, a byddwn yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn rheolaidd.

(iii) Llygredd amaethyddol
Bydd y bwrdd yn gyfarwydd â'r cynnydd ar ôl y papur i gyfarfod y bwrdd ym mis Mai a digwyddiadau briffio eraill.

(iv) Deorfeydd a stocio
Stopiodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r holl waith stocio salmonidau mudol yng Nghymru oherwydd y lefel annerbyniol o risg i boblogaethau a'u geneteg. Rydym eisoes wedi briffio ar y pwnc hwn.

(v) Cynlluniau adfer afonydd
Rydym yn cynnal gwaith newydd ar gynlluniau adfer afonydd, a fydd yn cael eu defnyddio gennym, gyda datganiadau ardal a blaenoriaethau eraill, er mwyn parhau i wneud gwelliannau amgylcheddol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chyflawni ein diben.

(vi) Tystiolaeth a data
Rhaid cael tystiolaeth gadarn er mwyn gwneud penderfyniadau beiddgar ar reoli pysgodfeydd. Rydym yn credu bod ein hasesiadau stoc o eogiaid a brithyllod y môr yn arferion gorau cyfredol ac yn addas at y diben. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda CEFAS ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar y camau nesaf yn y broses hon, gan ddysgu o ddatblygiadau diweddar yn Iwerddon a'r Alban a allai lywio penderfyniadau rheoleiddio mwy amserol.

Fel yr adroddwyd ynghynt, mae pryderon sylweddol o ran llwyddiant silio eogiaid ac, i ryw raddau, brithyllod y môr ledled Cymru, yn dilyn methiant silio helaeth yng ngaeaf 2015/16 a methiannau dilynol o ran recriwtio pysgod ifanc. Ar hyn o bryd, mae ail dymor o ymchwiliadau'n mynd rhagddo ac rydym yn bwriadu adrodd ar ganlyniad y rhain yn yr hydref.

Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ariannu doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd i ymchwilio i recriwtio salmonidau mewn sefyllfaoedd rhagamcanol o newid hinsawdd.

## 6. Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Mae pysgodfeydd eogiaid a brithyllod y môr yn cyfrannu miliynau o bunnoedd at economïau gwledig lleol, ac mae ganddynt hefyd werth cymdeithasol cysylltiedig. Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu tystiolaeth i ddarparu metrigau priodol ar gyfer hyn, fel bod gan bartïon sydd â diddordeb safbwynt ar y cyd ynghylch pa mor fawr yw'r budd economaidd. Mae hyn oherwydd bod gwerthoedd gwahanol ac weithiau hen werthoedd wedi cael eu dyfynnu, ac mae angen inni ddiweddaru'r gwerthoedd hyn lle y bo'n bosibl.

Mae bodolaeth eogiaid a brithyllod y môr yn ein hafonydd hefyd yn arwydd o amgylchedd iach.  Ein nod yw cynnal a gwella'r buddion cymdeithasol ac economaidd y mae pysgodfeydd gwialen a physgodfeydd rhwyd adloniadol yn eu cynnig, wrth warchod hefyd y pysgod sy'n cynrychioli rhan mor bwysig o amrywiaeth ein bywyd gwyllt.

Wrth ddatblygu ein dull, rydym wedi cadw'r nodau a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn cof, sef Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.  Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

Credwn mai'r ffordd orau o wneud y gorau o lesiant a manteision economaidd ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor yw drwy adfer ein stociau eogiaid a brithyllod y môr, fel eu bod yn dychwelyd i lefelau sy'n gallu cefnogi daliadau mwy o faint yn gynaliadwy.  Bwriad ein cynigion rheoli yw cyflawni hyn.  Rydym yn ymwybodol fod risg o leihau gweithgarwch pysgota yn y tymor byr, ond credwn fod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y posibilrwydd o fynediad parhaus at bysgota â gwialen a rhwyd yn y dyfodol.

O ystyried graddfa daliadau diweddar o eogiaid a brithyllod y môr mewn rhwydi, ni all y rhan fwyaf o'r pysgodfeydd hyn barhau i gael eu cynnal gan enillion economaidd.  Mae rhai yn cydnabod y dylid ystyried gwerth diwylliannol y bysgodfa, ond nid yw'n glir fod yn rhaid i werth diwylliannol ddibynnu ar y gallu i ladd pysgod.

Ni fyddai'r mesurau sy'n cael eu cynnig ar gyfer gwiail a rhwydi yn gwahardd pysgota, dim ond lladd eogiaid ac, mewn rhai lleoliadau ac ar rai adegau, brithyllod y môr.  Efallai y bydd yr effaith gyffredinol yn llai nag y mae llawer yn ei rhagweld, fel a welir yn Afon Gwy, ac mae'n anodd osgoi'r casgliad fod cadw stociau gwerthfawr yn gorbwyso unrhyw effaith tymor byr ar weithgaredd economaidd.

## 7. Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae eogiaid yn rhan o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), ac mae gan boblogaethau yn y ddwy ardal statws 'anffafriol'.

Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol bod y DU yn adrodd ar statws cadwraeth rhywogaethau dynodedig bob chwe mlynedd. Roedd yr adroddiad diwethaf, yn 2013, yn nodi statws eog yr Iwerydd fel 'anffafrifol–annigonol'. Mae methiannau diweddar o ran recriwtio yn golygu ei bod bellach yn debygol y byddwn yn gweld dirywiad pellach mewn stociau eogiaid, a dirywiad o ran statws i 'anffafriol–gwael' yn adroddiad 2019. Mae felly'n bwysig ein bod yn gweithredu'r holl gamau rheoli sydd ar gael er mwyn atal dirywiad pellach, a'i wrthdroi lle bo modd.

Mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar yr is-ddeddfau arfaethedig wedi'u paratoi a chânt eu rhoi i Lywodraeth Cymru i lywio ei phroses o wneud penderfyniad.

## 8. Argymhellion

Gan nodi'r angen am ddull dalgylch integredig yn afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, a'r angen am gysondeb gydag Asiantaeth yr Amgylchedd: -

1. Rhoi sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfau a hysbysebwyd yn flaenorol
2. Ystyried y cynigion terfynol ar gyfer is-ddeddfau pysgota newydd a chytuno arnynt
3. Cymeradwyo cais i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota am eogiaid a brithyllod y môr â gwialen ar Afon Dyfrdwy (deng mlynedd o hyd gydag adolygiad llawn ar ôl pum mlynedd) ac Afon Gwy (pedair blynedd o hyd)

Rydym yn argymell bod y bwrdd yn mabwysiadu'r cynigion diwygiedig a nodir yn Atodiad 5, ac yn cymeradwyo'r cais a fydd yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau is-ddeddfau newydd ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, unwaith y bydd is-ddeddfau 'Cymru gyfan' wedi cael eu cadarnhau gan Ysgrifennydd y Cabinet.

## 9. Cyfathrebu

Byddwn yn cyfathrebu penderfyniad y bwrdd drwy'r ffyrdd canlynol: -

- E-bost at bob deiliad trwydded salmonidau mudol y mae gennym fanylion cyswllt ar ei gyfer
- Papur ar gyfer grwpiau pysgodfeydd lleol
- Llythyr at siopau adwerthu genweirio
- Gosod newyddion a dogfennau ar ein gwefan

Byddwn yn dilyn y cyfathrebiadau hyn â deialog barhaus gyda rhanddeiliaid fel ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i weithredu unrhyw newidiadau cyfreithiol.

## 10. Risgiau allweddol

*Amddiffyn pysgodfeydd bregus:*

Mae is-ddeddfau afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy yng Nghymru yn ddibynnol ar ddiwygiadau i is-ddeddfau pysgodfeydd 1995 yng Nghymru, a fyddai’n cael eu deddfu fel rhan o gynigion 'Cymru gyfan' a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror. Felly, nid ydym yn gallu cyflwyno'r is-ddeddfau afonydd trawsffiniol ar gyfer Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy i'w cadarnhau gan Lywodraeth Cymru nes i ni gael casgliad.

Mae'r Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol (is-ddeddfau eogiaid gwanwyn), sydd wedi bod ar waith ers 19 o flynyddoedd, yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2018. Mae'r is-ddeddfau hyn wedi gwahardd lladd unrhyw eogiaid wrth bysgota â rhwyd cyn 1 Mehefin ac wrth bysgota â gwialen cyn 16 Mehefin. Roedd rhai o bysgodfeydd rhwydi Cymru wedi'u hesemptio o rai o'r cynigion, a oedd yn caniatáu iddynt barhau i bysgota am frithyllod y môr cyn 1 Mehefin, gan ryddhau unrhyw eogiaid a ddaliwyd yn ddiogel. Yn ogystal â hyn, mae'r un is-ddeddfau wedi gwahardd defnyddio abwyd (mwydyn a berdysen/corgimwch) yn ystod y cyfnodau hyn er mwyn lleihau'r risgiau o farwolaethau ar ôl daliadau â gwialen.

Os nad yw'r is-ddeddfau newydd arfaethedig a gynigir ar hyn o bryd yn cael eu cadarnhau, bydd y dulliau rheoli pysgota presennol yn dod i ben, ac felly byddai pysgodfeydd gwialen a rhwyd yn gallu ecsbloetio'r pysgod hyn sy'n cyrraedd yn gynnar yn gyfreithiol, gan roi pwysedd anghynaliadwy ar stociau.

*Gwrthwynebiad parhaus:*

Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi gwrthwynebu'r cynigion hyn.

Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch penderfyniadau blaenorol a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn fwyaf nodedig o ran deorfeydd ar Afon Dyfrdwy ac adnoddau gorfodi a phresenoldeb llawer is mewn pysgodfeydd ar Afon Gwy. Mae angen i ni gydnabod yr opsiynau hyn, gwella deialog gyda rhanddeiliaid, a dangos gwaith arall gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb i bwysau eraill sy'n cael effaith ar stociau pysgod.

*Heriau cyfreithiol:*

Rydym yn ymwybodol o debygolrwydd y risgiau hyn ac wedi ei asesu. Rydym wedi dod i'r casgliad fod ein camau arfaethedig yn briodol, yn seiliedig ar fframwaith

cadarn o ddangosyddion a thystiolaeth, ac yn unol â gweithdrefnau rheoli a gymeradwywyd.

*Pryderon technegol:*

Rydym yn cydnabod bod angen esbonio problemau technegol yn well i'n rhanddeiliaid, a byddwn yn ceisio ffyrdd gwell er mwyn gwneud hyn. Bu her ddiweddar i'n dulliau asesu technegol, ond rydym yn parhau i fod yn hyderus eu bod yn addas at y diben.

Mae'r gwaith cynyddol ar ddynameg, targedau a chydymffurfiaeth stociau brithyllod y môr yn enghraifft dda o ddatblygiad technegol.

Mae ein gallu i asesu stociau a rhoi mesurau ar waith mewn ymateb i ddirywiad yn helaethrwydd yn waith dwys o ran adnoddau, yn ogystal â bod yn araf wrth ymateb mewn modd amserol. Mae angen system arnom sy'n ein galluogi i asesu ac ymateb i newidiadau o ran helaethrwydd stoc yn gyflymach.

Nodwn fod camau gweithredu mwy prydlon yn cael eu cymryd mewn awdurdodaethau eraill erbyn hyn (yn yr Alban ac Iwerddon yn enwedig), ac rydym wedi ymrwymo i weithio'n barhaus gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a CEFAS er mwyn dylunio a gweithredu asesiad blynyddol a chylch ymateb newydd erbyn amser gwneud adolygiad pum mlynedd.  Rydym yn ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw yn y fan hon.

*Rydym yn dod i gasgliadau sy'n wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd:*

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd bellach wedi cwblhau ymgynghoriad statudol ar gyfer ei holl afonydd ac yn ystyried ei hymatebion.

Fodd bynnag, dylid nodi bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno â'n cynigion ar gyfer afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, ac wedi hysbysebu ac ymgynghori ar is-ddeddfau cymesur ar gyfer y rhannau o Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy (lle rydym yn arwain ar faterion yn ymwneud â’r dalgylch) dan ei hawdurdodaeth hi.

*Mae ein dull o weithredu yn wahanol i ddull awdurdodaethau eraill:*

Mae gweithdrefnau'n arwain at ganlyniadau eithaf tebyg yn yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon (Atodiad 6).

*Amserlen a risg o oedi wrth wneud cynnydd:*

Mae cyfyngiadau o ran adnoddau yn Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i symud tuag at gael datrysiad cyflymach. Fodd bynnag, mae’r ddau sefydliad yn cydnabod bod y broblem hon yn flaenoriaeth uchel iawn.

*Pryderon o ran camau gweithredu ar bwysau eraill:*

Darperir rhestr ar sail pwysigrwydd o bwysau a materion a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (Atodiad 3). Roedd y rhain yn debyg iawn i'r rheiny a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad Cymru gyfan.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod nifer o'r rhain, ac mae camau gweithredu eisoes yn cael eu cymryd ar y rhan fwyaf ohonynt. Byddwn yn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cyfathrebu'n fwy clir.

*Pryderon y bwrdd:*

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r bwrdd ymhellach, pe bai pryderon yn codi ynghylch unrhyw un o'r materion sy'n ymwneud â'n cynigion.

**11. Goblygiadau ariannol**

Cyfeiriwn at bapur y bwrdd o fis Mai 2017. Mae adnoddau technegol a gorfodi yn parhau i fod yn heriol iawn. Cydnabyddir y rhain gan randdeiliaid a chânt eu pwysleisio yn rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd.

Mae camau gweithredu sydd angen eu gwneud ar bwysau sy'n cyfyngu ar stociau eisoes yn rhan o gynlluniau gwaith presennol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae ein gwaith dylunio'r sefydliad sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd, mewn timau mwy integredig ac yn fwy effeithiol gyda phartneriaid, fel bod modd i ni gyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**12. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (Elias)**

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau (Atodiad 7).

**Rhestr o atodiadau**

1. Cefndir i ddatblygiad y dulliau rheoli arfaethedig newydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr

2. Cynigion a hysbysebwyd ar gyfer is-ddeddfau newydd ynghylch pysgota â gwialen a rhwyd a Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi newydd

3. Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd arfaethedig

4. Argymhellion a wnaed ar gyfer cynigion eraill

5. Casgliadau – diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfau

6. Trefniadau mewn awdurdodaethau eraill

   Asiantaeth yr Amgylchedd: penderfyniad ar ymgynghoriad statudol ynghylch dulliau rheoli pysgota newydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr

   Inland Fisheries Ireland – rheoleiddio pysgota am eogiaid a brithyllod y môr yn 2018

   Llywodraeth yr Alban: mesurau cadwraeth er mwyn rheoli lladd eogiaid gwyllt

   Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon) – rheoliadau genweirio

7. Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb